

Partneriaeth Talysarn & Nantlle



Bwletin Ward Talysarn

Ebrill 2009

Y diweddaraf am y Bwletin

O'r rhifyn nesaf ymlaen bydd y Bwletin yn dymhorol i gyfro Gwanwyn, Haf, Hydref a Gaeaf. Oherwydd hynny **Awst 14eg** yw'r dyddiad y byddwn yn disgwyl derbyn gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau sydd i'w cynnal yn yr Hydref er mwyn ei gosod yn y rhifyn nesaf.

Cynhwyswch fanylion cyswllt, dyddiad ac amser bob un digwyddiad ar ddod os gwelwch yn dda, a pheidiwch ag anghofio anfon adroddiad a lluniau i Wena o'r hyn ydych wedi bod yn ei wneud dros yr haf hefyd.

Cystadleuaeth logo newydd


Yn olynol ô'r gofyniad am logo newydd i'r Partneriaeth ym Mwletin y chwarter diwethaf derbyniasom gyfanswm o 45 ymgais. Bu i'r ddwy ysgol ymateb yn dra brwdfrydig gyda 21 ymgais yr un. Cynhaliwyd arddangosfa liwgar yn Nantlle ac yn Nhalysarn er mwyn i breswylwyr lleol ddewis eu ffefryn. Ar ôl cyfrif y pleidleisiau, y logo enillgar oedd un Margaret Shakespeare – mae'n cynnwys tironodau lleol ac elfennau o stori Llew Llaw Gyffes a roddodd ei enw i'r Dyffryn. Y ddau ymgais a ddaeth yn gydradd ail oedd Cara Thomas o Ysgol Baladeulyn a Caitlin Tocker o Ysgol Talysarn.



Yr ymgais buddugol
gan Margaret Shakespeare



Cydradd ail:
Caitlin Tocker,
Ysgol Talysarn



Cydradd ail:
Cara Thomas,
Ysgol Baladeulyn

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnnant@btopenworld.com



communities first cymunedau yn gyntaf



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Dyddiadur y Bartneriaeth

Llun 1 Ieg Mai	7:00yh	Cyfarfod y Bartneriaeth	Canolfan Talysarn
Llun 1af Mehefin	7:00yh	Cyfarfod y Bartneriaeth	Llys Llywelyn
Llun 6ed Gorffennaf	7:00yh	Cyfarfod y Bartneriaeth	Canolfan Talysarn
Gwener 14eg Awst	3:00yp	Eitemau ar gyfer y rhifyn nesaf	Swyddfa'r Bartneriaeth

Clwb Silyn

Ers y Bwletin diwethaf mae Clwb Silyn wedi cynnal sawl cyfarfod cofiadwy. Cawsom fwffe hyfryd ym mis Rhagfyr, diolch unwaith eto am waith caled Liz. Y flwyddyn hon cawsom brynhawn o Fiwsg a Therapi gyda Roberta Clements – mwynhawyd hyn gan bawb a gymerodd ran. Ym mis Ebrill bu prynhawn arbennig o ddifyr lle buom yn cynhyrchu Hetiau Pasg a dewiswyd ymgais Nancy Thomas fel yr un buddugol gan y beirniaid enwog (Wena a Glenys o Swyddfa'r Bartneriaeth!). Mae aelodau'r Clwb yn edrych ymlaen at wibdaith yn yr haf – bydd y lleoliad yn cael ei benderfynu'n fuan – a hefyd at Ffair Haf y Ganolfan ym mis Awst, eto fel canlyniad ô'r llwyddiant y llynedd.



Gwibdaith 'Llwyddo Yng Ngwynedd'

Sbarduno mentergarwch ac arloesiad mewn cymunedau gwledig ar hyd a lled Gwynedd. Dyna fwriad cynllun arloesol newydd "Llwyddo yng Ngwynedd" a fydd yn cynnig cyfleon unigryw i fusnesau, teuluoedd fferm a thrigolion sydd â syniad da i'w dreialu mewn busnes.

Bydd cyfle i drigolion mewn cymunedau ledled Gwynedd ddysgu mwy am y cynllun yn ystod yr wythnosau nesaf mewn cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus a fydd yn cael eu cynnal.

Mae cynllun "Llwyddo yng Ngwynedd" sy'n rhan o Gynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2007-2013 yn cael ei gydlynu gan Gyngor Gwynedd ar ran Partneriaeth Economaidd Gwynedd. Mewn strategaeth a gyhoeddwyd gan y Bartneriaeth yn 2007 adnabuwyd mentergarwch, cynnyrch lleol, mentrau amgylcheddol, ynni adnewyddol a diwydiannau creadigol fel themâu allweddol – a'r bwriad yw sicrhau fod y prif themâu yma yn cael eu hymgorffori trwy gynllun Llwyddo yng Ngwynedd.

Bydd y cyfarfodydd yma yn ffordd hwylus i drafod syniadau wyneb yn wyneb gydag aelodau o diem Llwyddo yng Ngwynedd. Rydym yn annog unrhyw un sydd â diddordeb datblygu menter neu gynnyrch newydd, sydd am beilota syniad busnes neu sy'n awyddus i hyrwyddo cynnyrch lleol ddod draw i un o'r cyfarfodydd lleol – mae'n gyfle gwych i greu cysylltiadau ac adnabod cyfleoedd.

Dewch i'r cyfarfod yn eich ardal chi: Canolfan Talysarn nos Fercher, 29 Ebrill am 7yh.

Am fwy o wybodaeth am wibdaith Llwyddo yng Ngwynedd cysylltwch â Dafydd Gruffydd neu Sioned Evans ar 01248 725713.

Clwb yr Iard

Mae 5 o bobol ifanc Clwb yr Iard wedi cymryd rhan mewn gweithdy Clywed a gynhaliwyd yng Nghanolfan Talysarn ym mis Ebrill ac mae'r Clwb wedi derbyn logo Clywed am yr ail flwyddyn. Mae'r Clwb yn cyfarfod ar bnawn dydd lau am bedwar o'r gloch yn Llys Llywelyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Ian ar 880 886.

Eisteddfod Datod Tafod

Ym mis Chwefror cynhaliwyd Eisteddfod gyntaf Dysgwyr Datod Tafod yng Nghwt y Band yn Nhalysarn, a 'roedd o amgylch 55 o bobl yno. Unodd aelodau o grwpiau eraill – Sesiwn Sgwrsio Pwllheli a Siop Siarad Blaenau Ffestiniog a'r Cylch – â Datod Tafod yn y digwyddiad cyffrous a phleserus hwn.

Yr oedd y cystadlaethau ar y llwyfan yn cynnwys canu unigol, adrodd pennill, jôc/stori, parti adrodd, sgets a

chwarae offeryn. Perfformiwyd y sgets "Parotiaid ar Werth", a ysgrifennwyd gan aelod o'r Grŵp Alison Weetman o Danrallt, gan Datod Tafod. Yr oedd y ddrama liwgar hon yn ymglymedig â pharotiaid a môr-ladron!

Cyflwynwyd enillydd pob cystadleuaeth â thocyn llyfr a derbyniodd pob ymgeisydd lyfrnod a beiro.

Yr enillwyr ar y llwyfan oedd: Margaret Shakespeare (Adrodd Barddoniaeth), Ann Watt (Chwarae Offeryn), Siop Siarad Blaenau (Parti Adrodd), Sue Meek(Stori), Datod Tafod (Sgets), Gwynne Hemuss (Canu Unigol).

Yr enillwyr yn y cystadlaethau Celfyddyd Gweledol oedd Emlyn Roberts (Llun Drwy Unrhyw Gyfrwng) a Rory Francis (Ffotograff).

Yr oedd dwy gystadleuaeth ysgrifenedig ac enillodd Ann Watt y Llwy Garu am ei rhyddiaith "Gŵyl" a Gwynne Hemuss Y Glustog am ei cherdd "Gwreiddiau".

Diolch i bawb a gyfranogodd tuag at wneud yr achlysur yn un mor llwyddiannus.

Tai i bobl leol yn Nantlle?

Bydd Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Dyffryn Nantlle yn dosbarthu holiadur anghenion lleol i bob tŷ ym mhentre' Nantlle yn y dyfodol agos, er mwyn mesur y galw lleol am dai. Os oes angen yn lleol, y bwriad yw datblygu nifer cyfyngedig o dai a fydd yn cynnig blaenoriaeth bendant i ymgeiswyr gyda chysylltiad lleol cryf.

Bwriad yr Ymddiriedolaeth (YMTIC) yw darparu cartrefi o safon i ymateb i anghenion lleol, a hynny am bris sydd yn sylweddol is na phris y farchnad.

Cwmni cyfyngedig dan warant yw'r YMTIC sydd wedi ei sefydlu i weithredu yn ddielw ym maes tai, ac i datblygu yn ôl yr angen lleol, ac nid er mwyn elw.

Os oes unrhyw un oddi allan i bentre' Nantlle yn dymuno derbyn ffurflen asesiad angen lleol hefyd, neu eisiau gwybod mwy am waith yr YMTIC cysylltwch â Dafydd Watts, Swyddog Datblygu yr YMTIC, yn Swyddfa Antur Nantlle, y Ganolfan Dechnoleg ym Mhenygroes 07970574068 neu ymtic-dn@hotmail.co.uk

Gobeithir cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Nantlle yn dilyn dadansoddi'r arolwg, i egluro mwy am waith yr YMTIC ac i roi cyfle i'r gymuned leol drafod ffyrdd posib i ymateb i unrhyw anghenion lleol sydd wedi cael eu adnabod. Mae'n bosib hefyd bydd cyfleon i bobl leol fuddsoddi mewn cynllun yn eu cymuned, a thrwy hynny sicrhau dyfodol iddo.

Gwobrau yr Uchel Siryf – Grŵp Blodeuwedd ac Ysgol Talysarn

Ar yr 17eg o Fawrth 2009 cyflwynodd yr Uchel Siryf Gwynedd wobr i Ysgol Talysarn a Grŵp Blodeuwedd am eu gwaith yn y gymuned, yn enwedig am eu gwaith o amgylch byngalos Gloddfa Glai. Mynychodd grŵp bychain o gynrychiolwyr, o Blodeuwedd ac Ysgol Talysarn, y seremoni yn y Llys Sirol yng Nghaernarfon lle bu i'r Uchel Siryf, Mr Peter Rogers, eu cyflwyno gyda phlac grisial wedi ei engrafu ynghyd â chwpan arian a thystysgrif. Cafwyd cyflwyniad byr gan y plant yn dangos eu gwaith o amgylch Talysarn.

Yn ystod y gwanwyn bydd Blodeuwedd yn parhau i gydweithio gyda phlant Ysgol Talysarn er mwyn datblygu'r ardd lysiau a ffrwythau a phlannu blodau o amgylch Talysarn.

Yn y cyfamser yn Nantlle, mae Blodeuwedd yn bwriadu cydweithio gyda phlant o Glwb yr Iard drwy blannu mwy o lwyni, coed a blodau yn y pentref. Yn ogystal mi fydd y grŵp yn brysur yn gwerthu planhigion ac yn cynnal eu Prynhawniau Te.

Os hoffech mwy o wybodaeth ynglŷn â'r grŵp, neu os hoffech helpu mewn unrhyw ffordd, yna cysylltwch â Tom ar 01286 882354.



Cegin yr Injan Fach, Canolfan Talysarn

Mae Cegin yr Injan Fach yn agored bob dydd lau rhwng 12 a 2yp.

Dewch draw am ginio a sgwrs.

Am fwy o fanylion galwch i mewn i'r Ganolfan neu ffoniwch 881569.

Cymdeithas Hanes a Hen Luniau

Darlith gan Dr Gwynfor Pierce Jones yn Llys Llywelyn, Nantlle ar nos lau Ebrill 30ain am 7.30yh. "Beth ydy'r stori tu ôl i'r llun?"

Sgwrs wahanol fydd hon, gan drafod lluniau prin a diddorol. Bydd cyfle ar y diwedd i drafod dros baned. Croeso i bawb.

Iona ac Andy yn ymweld â Llys Llywelyn

Darlith gan Dr Gwynfor Pierce Jones yn Llys Llywelyn, Nantlle ar nos lau Ebrill 30ain am 7.30yh. "Beth ydy'r stori tu ôl i'r llun?" Sgwrs wahanol fydd hon, gan drafod lluniau prin a diddorol. Bydd cyfle ar y diwedd i drafod dros baned. Croeso i bawb.

Arddangosfa Nyddu a Gwehyddu

Pan fydd rhywun yn meddwl am 'nyddu' a "throell" y darlun a ddaw i'r meddwl yw, hen wraig o Gymru gyda'i het gorun uchel, dillad o frethyn, siôl o wllân coch a ffedog ffrils wen. Wel, nid diwrnod o hen wragedd wrthi'n nyddu oedd yn Llys Llywelyn ar Sadwrn yr 21ain o Fawrth, yn hytrach criw o ferched brwdfrydig yn brysur yn arddangos sut i nyddu sawl math o wllân a gwehyddwyr artistig yn arddangos eitemau gorffenedig hardd wedi eu gwehyddu o wllân wedi ei lifo neu yn ei liw naturiol.

Roedd cyfle i unrhyw un drïo ei law ar y nyddu. Roedd o'n edrych yn hawdd! Ond mae eisïau sgil a dyfalbarhad i lwyddo – fel ymhob crefft.

Diolch i Irene Roberts am drefnu'r diwrnod, ac i Gymdeithas Nyddwyr a Gwehyddwyr Llŷn am roi eu hamser.

Galeri yn y Ganolfan

Oes gennych chi unrhyw waith arlunio hoffech eu harddangos? Mae gennym yma yn y Ganolfan ofod ar gael ar gyfer unigolion arddangos eu gwaith. Am fwy o fanylion galwch i mewn i'r Ganolfan neu ffoniwch 881569.

Noson yng Nghwmni 'Dangerous Age' yn Llys Llywelyn

Mae'r grŵp gwerin lleol 'Dangerous Age' yn hynod boblogaidd yn Llys Llywelyn. Dyma'r ail dro iddyn nhw berfformio yn y Ganolfan. Fe fuon nhw'n perfformio i Gyfeillion yr Ysgol mewn barbeciw yr haf diwethaf.

Ar nos Wener Mawrth 27ain noson o Gaws a Gwin oedd ar y gweill. Roedd cynulleidfa wedi mwynhau eu hunain yn arw. Fore trannoeth roedd ambell i un gyda choesau reit stiff, ar ôl bod yn dawnsio i gyfeiliant heintus y grŵp. Gobeithio y gellir trefnu iddyn nhw ddod eto. Mae nhw mor gerddorol a phroffesiynol, mae'n nhw werth eu clywed.

Diolch i Frances Williams am drefnu'r noson.



Dathlu a Chofio

Roedd nos Wener, Mawrth 6ed yn noson arbennig iawn yn Llys Llywelyn. A ninnau newydd ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, roedd hynny'n rheswm dros gael Cawl a Chân. Roedd rheswm arall pwysicach o lawer. Roedd Lleisiau Mignedd wedi cytuno i ddod i ganu i Llys Llywelyn unwaith eto. Trysorydd Llys Llywelyn, a hefyd aelod ac Ysgrifennydd Lleisiau Mignedd oedd ein hannwyl ddiweddar Enid Francis. Roeddem yn awyddus iawn i ddathlu bywyd Enid, yn y ffordd y basa hi yn ei hoffi, sef drwy ganu. Dyna brif amcan y noson. Wir, roedd hi'n noson dda. Llys Llywelyn dan ei sang, a'r Côr yn eu hwyliau gorau yn codi'r to.

Mwynhaodd pawb y cawl, a thynnwyd raffl ar ddiwedd y noson. Elw y raffl at Gronfa Ymchwil Cancr (Cangen Caernarfon) oedd £145.00.

Diolch i Vera Jones am drefnu'r noson.

Prifysgol Agored yng Nghymru – Yn agored wrth eich ymyl chi yn Nhalysarn

Mae Partneriaeth Talysarn a Nantlle yn gweithio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru i ddod a mwy o gyfleon dysgu i'r ardal.

Oeddech chi'n gwybod eich bod yn gallu dysgu o gartref gyda'r Brifysgol Agored, astudio o amgylch eich bywyd dydd i ddydd ar amser sy'n siwtio chi?

Mae Gayle Hudson, Swyddog Datblygu'r Brifysgol Agored yn awyddus i roi cyfle i fwy o bobl gael astudio addysg uwch.

“Tydi rhan fwyaf o bobl ddim yn gwybod faint o hyblyg ydyw astudio gyda'r Brifysgol Agored” meddai Gayle, “Mae rhan fwyaf o bobl sydd ar gyflogau isel neu fudd-daliadau yn gymwys i gyrsiau am ddim hefyd”.

Mae cannoedd o gyrsiau ar gael ac amrediad o gyrsiau rhagarweiniol i bobl sydd yn newydd i astudio. Rhai o'r pynciau yw Seicoleg, Amgylchedd, Cyfraith, Plant, Mathemateg, Celfyddydau, Iechyd a Rheolaeth.

Mwy o wybodaeth: Mae'r Brifysgol Agored yn rhedeg **Diwrnod gwybodaeth** a “**sesiynau blasu**” yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn ar **ddydd Iau, 2il o Orffennaf** rhwng 10.30 a 2.30pm, dewch draw i ddarganfod mwy. Am fwy o wybodaeth dewch draw i swyddfa'r Bartneriaeth neu Ebst: g.Hudson@open.ac.uk

Gwefan: www.open.ac.uk/study

Dyddiadur Digwyddiadau Am fwy o wybodaeth ffoniwch y cyswllt priodol

Sadwrn 9fed Mai	10:30-14:00	Llys Llywelyn	Byrddau Gwerthu Dan Do (Sally Barnes 882511)
Mai 9fed-16eg	<i>Gwybodaeth ar gael yn fuan</i>		Gŵyl Fai (Wena 881103)
Sadwrn 16eg Mai	10:30-15:00	Neuadd Goffa Penygroes	Blodeuwedd – Gwerthiant Planhigion (Gŵyl Fai) (Tom 882354)
Sadwrn 23ain Mai	10:30-14:00	Llys Llywelyn	Gwerthiant Llyfrau (Sally Barnes 882511)
Mercher 27ain Mai Dechrau Mehefin (y dyddiad i'w gyhoeddi)	14:00-16:00	Llys Llewelyn Canolfan Talysarn	Te Prynawn Blodeuwedd (Tom 882354) Gwerthiant Planhigion Blodeuwedd (Tom 882354)
Gwener 5ed Mehefin	19:30	Llys Llywelyn	Iona ac Andy (Vera 880443)
Sadwrn 6ed Mehefin	14:00-16:00	Canolfan Talysarn	Gweithdy Barddoniaeth Bwrlwm Eryri efo Ifor ap Glyn (Nora 882027)
Gwener 12fed Meh	13:00-15:00	Canolfan Talysarn	Pen-blwydd Datod Tafod efo Geraint Lovgreen (Nora 882027)
Gwener 12fed Meh	20:00-23:59	Canolfan Talysarn	Noson Gomedi Celts Talysarn (i rai dros 18 oed yn unig) efo Tudur Owen, Beth Angell a Geraint Lovgreen (Y Ganolfan 881569)

Sadwrn 13eg Meh	10:30-14:00	Llys Llywelyn	Byrddau Gwerthu Dan Do (Sally Barnes 882511)
Mercher 24ain Meh	14:00-16:00	Canolfan Talysarn	Te Prynawn Blodeuwedd (Tom 882354)
Iau 2il Gorffennaf	09:00-15:30	Canolfan Talysarn	Diwrnod Agored y Brifysgol Agored (881569)
Sadwrn 11eg Gorff	10:30-14:00	Llys Llywelyn	Byrddau Gwerthu Dan Do (Sally Barnes 882511)
Sadwrn 8fed Awst	10:30-14:00	Llys Llywelyn	Byrddau Gwerthu Dan Do (Sally Barnes 882511)
Sadwrn 23ain Awst	10:30-14:00	Llys Llywelyn	Ffair Hen Bethau (Sally Barnes 882511)
Pob dydd Mawrth	15:00-17:00	Llys Llywelyn	Sesiwn Galw Heibio Caffi Seiber (Vera 880443)
Pob dydd Mawrth	19:00-21:00	Llys Llywelyn	Siop Siarad (Nick 881103)
Pob dydd Mercher	09:30-11:30	Canolfan Talysarn	Sesiwn Galw Heibio Swît Gyfrifiaduron (Gwyn 882195)
Pob dydd Iau	09:30-11:30	Canolfan Talysarn	Sesiwn Galw Heibio Swît Gyfrifiaduron (Gwyn 882195)
Pob dydd Iau	12:00-14:00	Canolfan Talysarn	Cinio – Cegin yr Injan Fach (881569)
Pob dydd Iau	16:00-17:45	Llys Llywelyn	Clwb yr Iard
Pob dydd Iau	19:00-20:00	Canolfan Talysarn	Siop Siarad (Nick 881103)
Pob dydd Gwener	10:30-12:00	Llys Llywelyn	Bore Coffi (Vera 880443)
Pob dydd Gwener	13:00-15:00	Canolfan Talysarn	Datod Tafod – Grŵp Dysgwyr Cymraeg (Nora 882027)
Pob dydd Gwener	15:00-17:00	Canolfan Talysarn	Marchnad Dyffryn Nantlle (Jane 880352)
Pob dydd Gwener	18:45-20:30	Canolfan Talysarn	Saethwyr Dyffryn Nantlle (Geoff 880527)

Blwch Syniadau

Os oes gennych chi syniadau yr hoffech i'r Bartneriaeth eu hystyried, rhowch nhw yn y blwch yma a'i ddanfôn at Dafydd Williams yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn.

Enw:

Cyfeiriad:

Syniadau:

.....

.....

.....

.....

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaeth@talysarnanant@btopenworld.com